**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**
**(Archwiliadau Safle)**

**20 Ionawr 2025**

Yn bresennol: Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Cynghorydd M James a Mr GA Jones.

Swyddogion yn bresennol: Mrs S Morris, Ms K Attrill, Ms B Gledhill (Lleine yn unig), Mrs C Llewellyn (Cofnodion) a Ms G Jones.

(Archwiliad Safle: 10.40am – 11.20am; 11.50am – 12.10pm)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth y Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd Dr S Hancock, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Dr RM Plummer, Cynghorydd B Price, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd A Tinley, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams.

**2. Pwrpas yr ymweliad**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe'u hatgoffodd mai pwrpas yr ymweliadau'r diwrnod hwnnw oedd yn benodol i'w galluogi i gyfarwyddo eu hunain â safleoedd y ceisiadau a phob dim o'u hamgylch. Ni fyddai yna unrhyw drafod yn digwydd na'r un penderfyniad yn cael ei wneud nes bo'r ceisiadau cynllunio yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

**3. NP/24/0596/FUL - Caniatáu ystafelloedd trigiadwy mewn adeilad sy wedi cael caniatâd ynghyd â dolen i'r annedd bresennol, Lleine, Nanhyfer, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0NY**

Esboniodd y Rheolwr Rheoli Datblygu bod y cais hwn yn gofyn am ganiatâd i ganiatáu ystafelloedd trigiadwy mewn adeilad allanol oedd eisoes wedi'i ganiatáu o dan gais cyf. NP/22/0571/FUL, ynghyd â chreu dolen yn ei gysylltu i'r annedd bresennol. Cafodd cynlluniau yn dangos y datblygiad oedd wedi'i gymeradwyo, yn ogystal â'r hyn a oedd mewn golwg, eu rhannu, ac fe gyfeiriodd y swyddog at yr adeiladau oedd wedi derbyn caniatâd i gael eu dymchwel a'u hail-godi. Er bod caniatâd ar gyfer yr adeilad fyddai'n cael ei godi wedi'i roi nododd bod y cais hwn yn gofyn am ganiatâd i'w ddefnyddio at bwrpas domestig yn hytrach nag ar gyfer storio. Esboniodd bod y swyddogion yn pryderu ynghylch colli cymeriad, hyd yr annedd wrth edrych arno o'r cefn o'r llwybr arfordirol a'r

effaith ar y dirwedd, yn arbennig yn ystod y nos, a allai gael ei achosi gan y cais.

Nododd yr Asiant y byddai'r sgubor bresennol (y parlwr godro) yn cael ei ail-godi ar aliniad ychydig yn wahanol er mwyn osgoi pibell ddŵr oedd yn dirwyn ar draws y safle ac roedd lleoliad tebygol cornel yr adeilad wedi'i nodi ar y tir.

Bu'r Aelodau yn edrych ar yr adeiladau o'r tu blaen a'r tu ôl. Gofynnon nhw am ddarparu manylion ynghylch uchder yr adeiladau a gwybodaeth ynghylch p'un a fyddai'n bosib lliniaru'r gollwng golau, sydd yn rhan o'r cais am ystafelloedd trigiadwy, erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Gohiriwyd yr ymweliad safle er mwyn teithio i'r safle nesaf.

**4. NP/15/0417/FUL – Cadw adeilad amaethyddol (Adeiledd 13) a chlos gorwedd, Trewern, Felindre Farchog, Crymych, Sir Benfro SA41 3XE**

Esboniodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad nad oedd hi'n fwriad i ymweld â'r fferm waith hon ond i edrych ar olygfeydd ohoni yn y dirwedd. Gyrrwyd yr Aelodau yn araf heibio'r fferm a nodwyd ble roedd lleoliad y plannu arfaethedig a'r adeileddau presennol.

Ymwelodd yr Aelodau â Siambr Gladdu Pentre' Ifan wedyn lle'r oedd yna olygfa dda o'r safle a nodwyd ble fyddai'r plannu arfaethedig yn digwydd a'r fan lle'r oedd Adeileddau 13. Gwelwyd tystiolaeth o adeileddau'r cabannau lloi newydd, ac fe gynghorodd y Swyddog y byddai yn gofyn iddyn nhw gynnwys y rheini fel rhan o gynllun diwygiedig i'w gyflwyno cyn cyfarfod y Pwyllgor.

Nodwyd bod arolwg golau ar gais blaenorol wedi dangos effaith sylweddol a gofynnwyd am fesurau lliniaru fel rhan o'r cais cyfredol.

Wrth ddiolch i bawb am eu presenoldeb cyhoeddodd y Cadeirydd bod yr archwiliad safle ar ben.